**Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Risg**
Gorffennaf 2024

## 1. Cefndir

Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru yn 1922 ac erbyn heddiw mae'n fudiad ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol mwyaf Cymru. Nod yr Urdd yw sicrhau cyfleoedd a phrofiadau, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru i ddatblygu'n ddinasyddion cyflawn a hyderus. Rydym yn fudiad uchelgeisiol sy'n arloesi wrth ymestyn ein cynnig i bawb.

Trosiant yr Urdd yn 2022/2023 oedd £19.6M gyda gwerth economaidd o £45M i Gymru. Mae'r Urdd yn cyflogi 390 o staff, sy'n cynnwys 293 o staff cytundebol a thros 97 o weithwyr achlysurol ychwanegol.

**Gweler**
**Adroddiad Blynyddol yr Urdd 2023/2024**
**Cynllun Corfforaethol 2023-2028 Urdd i Bawb**

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd wedi sefydlu'r Pwyllgor Archwilio a Risg fel pwyllgor sefydlog i'w gefnogi a chynorthwyo gyda'r cyfrifoldeb dros reoli risg a llywodraethiant.

Y Bwrdd Ymddiriedolwyr sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol yn eu rôl fel cyfarwyddwyr anweithredol cwmni Urdd Gobaith Cymru ac fel ymddiriedolwyr yr elusen. Bydd aelodau'r Pwyllgor hwn yn cyflawni dyletswydd ymgynghorol yn unig.

## 2. Pwrpas y Pwyllgor Archwilio a Risg

Nod y Pwyllgor Archwilio a Risg yw cynorthwyo Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd gyda'i gyfrifoldeb drwy graffu ar, a herio'r prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethiant.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod gyda'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn flynyddol i drafod eu hadroddiad blynyddol.

## 3. Cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Risg

### Archwiliad Allanol

i. Penodi neu ailbenodi Archwilwyr Allanol, telerau eu penodi, y ffi archwilio, a'u gallu i ddarparu unrhyw wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio archwilwyr allanol.
ii. Monitro yn flynyddol perfformiad yr archwilwyr Allanol, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu gwrthrychedd, ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â'u diswyddo (lle bod gan y Bwrdd fewnbwn i hynny).
iii. Trafod gyda'r archwilwyr, cyn i'r archwiliad ddechrau, natur a sgôp yr archwiliad.
iv. Trafod gyda'r archwilwyr materion sydd wedi codi yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys y llythyr rheoli gan yr Archwilwyr Allanol a chynnwys ymatebion y rheolwyr; a barn ffurfiol yr Archwilwyr Allanol.
v. Trafod gyda'r archwilwyr unrhyw faterion eraill y gallai'r Archwilwyr Allanol fod am eu trafod (yn absenoldeb y rheolwyr lle y bo angen hynny).

**Rheolaeth, Datganiadau ac Adroddiadau Ariannol**

Craffu ar y materion canlynol, a chytuno ar argymhelliad / argymhellion i'r Bwrdd fel bo'n briodol:

i. Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Datganiadau Ariannol blynyddol, ar y cyd gyda'r Archwilwyr Allanol, gan gynnwys barn ffurfiol yr archwilwyr, datganiad ar bolisïau ac amcanion rheolaeth risg a rheolaeth ariannol, y dybiaeth cwmni gweithredol ,datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a chydymffurfiaeth gyda 'Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' a Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (effeithiol 1 Ionawr 2015).
ii. Y llythyr cynrychiolaeth cyn ei argymell i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ei ystyried a chymeradwyo;
iii. Yr Adroddiad Blynyddol cyn ei argymell i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ei ystyried a chymeradwyo er mwyn ei gyhoeddi ar wefan yr Urdd.
iv. Adolygiad rheolaidd o reoliadau ariannol a chofrestr polisïau'r Urdd.
v. Datganiad blynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.
vi. Datganiadau arferion a pherfformiad talu.
vii. Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau'r Pwyllgor, yn enw Cadeirydd y Pwyllgor – at sylw'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Cyllid.

**Rheoli Risg a Llywodraethiant**

i. Adolygiad rheolaidd o Bolisi Risg y mudiad a sicrhau bod trefniadau rheoli risg yn ddigonol ag effeithiol.
ii. Adolygiad rheolaidd o Gofrestr Risg yr Urdd.
iii. Unrhyw ddiwygiadau i bolisïau'r sefydliad ar ddatgan buddiannau, gwrth dwyll, prosesau 'chwythu chwiban' a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig, a sicrhau bod trefniadau yn eu lle sy'n caniatáu ymchwiliad teg ac annibynnol; sicrhau bod systemau yn eu lle o ran atal llwgrwobrwyo; derbyn adroddiadau ar unrhyw faterion sy'n codi / unrhyw ddiffyg cydymffurfio.
iv. Adolygiad rheolaidd buddiannau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r Tîm Rheoli.
v. Adolygiad blynyddol o'r adroddiad.
vi. Diwygiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor (fel arfer yn dilyn gwerthusiad blynyddol o'i berfformiad ei hun).

**Rheoli Strategaeth Buddsoddi**

i. Datblygu a rheoli strategaeth a pholisi buddsoddi o fewn fframwaith strategaeth a risg wedi eu diffinio gan y Bwrdd.
ii. Asesu'r strategaeth buddsoddi a risg.
iii. Adolygu'r polisi buddsoddi yn flynyddol.
iv. Asesu a chymeradwyo i'r Bwrdd unrhyw newidiadau i'r buddsoddiadau.

**Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn:**

- Adolygu effeithiolrwydd ei hun ac adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.
- Adolygu effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol yn flynyddol.

**Aelodaeth**

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- Cadeirydd annibynnol nad sydd yn Ymddiriedolwr Urdd Gobaith Cymru.
- O leiaf 3 aelod a enwebwyd o Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd, sy'n cynnwys Ymddiriedolwr Ifanc 18-25oed.

Bydd aelodau staff yn mynychu yn unol â chais y Cadeirydd, sef:

- Prif Weithredwr yr Urdd
- Cyfarwyddwr Cyllid yr Urdd

Mae gan yr Urdd yr hawl i adolygu aelodaeth y pwyllgor hwn i adlewyrchu nodweddion cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth.

Penodir aelodau'r pwyllgor hwn am gyfnod o dair blynedd, pan fydd rhaid ail gychwyn y broses enwebu ar gyfer aelodau newydd. Bydd ond hawl i aelodau (heblaw'r Cadeirydd) i ystyried eistedd am un tymor arall o dair blynedd os ydynt hefyd yn dal yn ymddiriedolwyr gyda'r Urdd.

Bydd gofyn i bob aelod o'r pwyllgor hwn gwblhau asesiad sgiliau i sicrhau cydbwysedd rhyw / sgiliau / oed a phrofiad.

Rhaid i aelodau'r pwyllgor hwn gwblhau datganiad o ddiddordeb yn flynyddol, gan ddatgan unrhyw ddiddordeb personol / masnachol / teuluol ar gychwyn pob cyfarfod. Os bydd aelod yn datgelu hynny, ni chaiff gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn perthynas â'r mater. Bydd hawl gan y Cadeirydd, os yw yn berthnasol, i ofyn i'r aelod hynny i adael y cyfarfod.

Bydd gofyn i aelodau nodi eu presenoldeb neu ymddiheuriadau ar gyfer pob cyfarfod (lleiafswm o 2 y flwyddyn). Mae hawl gan yr Urdd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd atal aelod o'r pwyllgor os nad yw yn bresennol, heb ymddiheuriad neu nodi'r rheswm am fethu mynychu yn 50% o'r cyfarfodydd.

**4. Cadeirydd**

Penodir Cadeirydd annibynnol trwy alwad agored am gyfnod o 3 mlynedd.

Bydd Cadeirydd y pwyllgor yn cyflwyno adroddiad llafar ac ysgrifenedig byr i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn flynyddol, i gyd fynd â chwblhau cyfrifon yr Urdd, gan grynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn datgan barn am reolaeth fewnol a rheoli risg y sefydliad.

Gall Cadeirydd y pwyllgor wahodd cynrychiolwyr eraill i ymuno â'r pwyllgor hwn am ran o gyfarfod, cyfarfod cyfan neu gyfres o gyfarfodydd lle y bo'n berthnasol. Gall aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr mynychu cyfarfodydd y pwyllgor hwn, ond nid fydd ganddynt bleidlais.

**5. Cyfarfodydd ac Adroddiadau**

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod am o leiaf dau gyfarfod y flwyddyn ac yn ychwanegol yn ôl yr angen.

Rhif y Cworwm bydd tri neu'r nifer agosaf at un rhan o dri o gyfanswm aelodau'r bwrdd gan eithrio aelodau staff.

Cynhelir y cyfarfodydd yn rhithiol a gellir ystyried i gynnal un cyfarfod y flwyddyn yn un 'mewn person'.

Darperir cefnogaeth weinyddol i'r pwyllgor hwn gan yr Urdd.

**6. Awdurdod Dirprwyedig**

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn bwyllgor cynghori i Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Serch hynny mae ganddo'r awdurdod gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr i ymchwilio i unrhyw un o'r gweithgareddau o fewn ei gylch gorchwyl, a, thrwy'r Cadeirydd, i ofyn am unrhyw wybodaeth neu bapurau mae ei angen gan y Prif Weithredwr a'i staff, a hefyd gan ei Archwilwyr Allanol.

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael mewnbwn i'r broses o benodi archwilwyr mewnol.

**7. Gweinyddiaeth Drefniadol**

Rhoddir o leiaf saith diwrnod clir o rybudd cyn pob cyfarfod.

Bydd agenda a phapurau'r cyfarfod fel arfer yn cael eu dosbarthu saith diwrnod cyn y cyfarfod. Bydd y Cadeirydd yn cytuno'r agenda ymlaen llaw.

**8. Rôl a chyfrifoldeb Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg**

**Bydd gofyn i aelodau'r Pwyllgor hwn:-**

- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor.
- Neilltuo amser i ymgyfarwyddo â gwaith yr Urdd a chynlluniau penodol maes gweithredu'r Pwyllgor.
- Mynychu o leiaf 2 cyfarfod y flwyddyn a Chyfarfod Blynyddol Urdd Gobaith Cymru. (Bydd y mwyafrif o'r cyfarfodydd ar lein gyda chyfarfodydd 'mewn person' yn ôl y galw.)
- Cymryd rhan mewn pwyllgorau / grwpiau Gorchwyl a Gorffen os yn berthnasol.

**Cydnabyddiaeth ariannol a buddion**

Bydd yr Urdd yn talu treuliau teithio os mynychir cyfarfod 'mewn person', wyneb i wyneb.

**Rôl a chyfrifoldebau aelod.**

- Cefnogi'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid, Cadeirydd yr Urdd a'r Trysorydd gyda'r cyfrifoldeb dros reoli risg a llywodraethiant.
- Hybu agenda ar gyfer gwelliant parhaus o safbwynt darparu gwasanaethau'r adran.
- Craffu i annog darparu cynnig cynhwysol i blant a phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau at fynediad hawdd i ddarpariaeth yr Urdd.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwyr yr adran i gyflawni nod Net Seroy'r Urdd.
- Cyfrannu i sicrhau cefnogaeth a gofal dros wirfoddolwyr yr Urdd.
- Dathlu effaith darpariaeth yr Urdd ar y Gymraeg a'r gwahaniaeth personol a chymdeithasol ym mywydau plant a phobl ifanc.
- Galluogi llais aelodau'r mudiad i fynegi barn a chyfrannu at benderfyniadau.

**9. Adolygu'r Cylch Gorchwyl**

Adolygir y cylch gorchwyl yn flynyddol gan gyflwyno newidiadau i'w cymeradwyo gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Urdd.